

Rheoliadau Cyffredinol y Senedd a'i Hisbwyllgorau

Rheoliad 14: 2019 Fersiwn 1
Yn dod i rym: 1 Awst 2019



Dyddiad	Yn disodli	Disgrifiad o'r newid
1 Awst 2019.	Fersiwn 2018.	Aelodaeth a chylch gorchwyl wedi eu diweddarau.

Perchennog y ddogfen	Cymeradwywyd gan	Dyddiad cymeradwyo	Amllder adolygu
Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio.	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.	26 Mehefin 2019.	Bob tair blynedd.

Sylwer: Dan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth gan gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i ysgolion, penaethiaid ysgol, swyddogion ysgol neu bwyllgorau ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu defnyddio gan y coleg, pennaeth y coleg, swyddogion y coleg neu bwyllgorau'r coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Rheoliadau Cyffredinol y Senedd a'i His-bwyllgorau



Mae Ordinhad y Brifysgol (XII) sy'n diffinio aelodaeth a phwerau'r Senedd ar gael gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

Rhagarweiniad

1. Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud â'r Senedd a'i his-bwyllgorau. Dylid eu darllen ar y cyd â'r holl reoliadau a chodau ymarfer eraill a gymeradwywyd gan y Senedd.
2. Mae Siarter y brifysgol yn disgrifio'r Senedd fel "awdurdod academiaidd" y brifysgol, sy'n gyfrifol am y "gwaith academiaidd". Y Senedd yw'r corff llywodraethol ar faterion academiaidd (ond nid rheolaethol) ac mae'n gyfrifol am yr holl faterion academiaidd sy'n effeithio ar y brifysgol.
3. Mae'r Senedd yn gyfrifol am y canlynol:
 - Holl faterion y mae angen barn academiaidd arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau academiaidd; asesu myfyrwyr; disgyblu myfyrwyr; dyfarnu gwobrau, ysgoloriaethau a bwrsariaethau; gwobrau'r brifysgol; achosion arbennig; hyd a strwythur y flwyddyn academiaidd; ac amserlennu.
 - Rheoliadau academiaidd y brifysgol, codau ymarfer, gweithdrefnau, canllawiau ac unrhyw ddogfennau academiaidd-gysylltiedig eraill a gyfeirir atynt.
 - Teitlau er anrhydedd a rhoi statws academiaidd i unigolion, ac eithrio teitl Athro er Anrhydedd.
4. Fforwm yw'r Senedd lle trafodir materion academiaidd o bwys. Gall y cyfryw faterion gynnwys addysgu a dysgu, ehangu mynediad, ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth, ac astudiaethau cyfrwng Cymraeg.
5. Rhoddir gwybod i'r Senedd am gyflawniadau academiaidd o bwys (e.e. grantiau ymchwil, gwobrau, anrhydeddau, adolygiadau allanol).

Grwpiau tasg sy'n is-bwyllgorau o'r Senedd

6. Sefydli'r grwpiau tasg gan Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol i reoli themâu strategol. Gall grwpiau tasg gyfeirio materion at y Pwyllgor Gweithredu ond mae rhai hefyd yn adrodd i'r Senedd. Dyma'r grwpiau tasg sy'n is-bwyllgorau o'r Senedd:
 - Grŵp Tasg Technoleg Gwybodaeth
 - Grŵp Tasg y Llyfrgell ac Archifau

- Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu
 - Grŵp Adolygu Gwella Ansawdd
 - Grŵp Tasg Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021
 - Grŵp Tasg Strategaeth Ymchwil, Arloesi ac Effaith
 - Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr
 - Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu
 - Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg
7. Gweler aelodaeth a chylch gorchwyl y grwpiau tasg sy'n adrodd i'r Senedd yn Atodiad 1. Caiff materion sydd angen sylw brys eu hystyried gan y cadeirydd sydd ag awdurdod i gymryd camau gweithredol arnynt.

Is-bwyllgorau Sefydlog

8. Gall y Senedd sefydlu is-bwyllgorau gyda swyddogaethau penodol, a gall y Senedd ddiffinio aelodaeth pob is-bwyllgor.
9. Dyma is-bwyllgorau'r Senedd:
- Y Panel Apêl
 - Byrddau Arholi
 - Grŵp Archwilio Partneriaethau Allanol
 - Y Pwyllgor Enwebiadau
 - Y Pwyllgor Gwobrau a Dyfarniadau
 - Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.
 - Pwyllgor Graddau Ymchwil
10. Caiff materion sydd angen sylw brys eu hystyried gan y cadeirydd sydd ag awdurdod i gymryd camau gweithredol arnynt.
11. Gall y Senedd sefydlu grwpiau arbennig i adrodd ar faterion o ddewis y Senedd. Fel rheol cytunir ar gadeirydd ac aelodau'r cyfryw grwpiau gan y Senedd ond gall y grwpiau gyfethol aelodau hefyd. Rhaid i'r cyfryw grwpiau roi adroddiad o fewn cyfnod a bennir gan y Senedd.
12. Gweler aelodaeth a chylch gorchwyl yr is-bwyllgorau yn Atodiad 2. Gall Ysgrifennydd y Brifysgol gymeradwyo newidiadau i aelodaeth a chylch gorchwyl yr is-bwyllgorau.

Swyddogion

13. Swyddogion y Senedd yw'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellorion, ac Ysgrifennydd y Brifysgol.
14. Rhaid i'r Is-ganghellor (neu ei enwebai) gadeirio cyfarfodydd y Senedd. Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yw ysgrifennydd y Senedd. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol wedi enwebu Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio fel Ysgrifennydd y Senedd.

Penodiadau er Anrhydedd

15. Mae penodiadau er anrhydedd yn cydnabod cyfraniad gwirfoddol, di-dâl at weithgareddau ysgol neu'r brifysgol. Rhaid i benodiadau er anrhydedd gael eu cymeradwyo gan y Senedd ar argymhelliad pennaeth ysgol.

16. Mae gan y Senedd awdurdod i benodi i'r teitlau a ganlyn:

- Darlithydd/Uwch Ddarlithydd er Anrhydedd - am gyfraniad at addysgu a dysgu
- Cymrawd Ymchwil/Uwch Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd - am gyfraniad o bwys at ymchwil
- Cysylltai Ymchwil/Uwch Gysylltai Ymchwil er Anrhydedd - am gyfraniad llai at ymchwil
- Cymrawd Diwydiannol/Uwch Gymrawd Diwydiannol er Anrhydedd - am gyfraniad at weithgareddau cyswllt diwydiannol
- Cymrawd Entrepreneuriaidd/Uwch Gymrawd Entrepreneuriaidd er Anrhydedd - am gyfraniad at weithgareddau masnachol neu'n ymwneud â busnes
- Cysylltai/Uwch Gysylltai er Anrhydedd - am gyfraniadau nad ydynt yn rhai academaidd.

17. Gweler y rheolau ar gyfer penodiadau er anrhydedd a'r drefn benodi yn Atodiad 3.

Cyfarfodydd

18. Cyn diwedd pob sesiwn academaidd, mae'n rhaid pennu dyddiadau cyfarfodydd y Senedd ar gyfer y sesiwn ganlynol. Gelwir y cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd arferol a rhaid eu cynnull fel y disgrifir yn y rheoliad hwn. Pan gaiff cyfarfod ei ganslo neu ei ail-drefnu, rhaid i'r ysgrifennydd hysbysu'r holl aelodau eraill.

19. Gall yr Is-ganghellor alw cyfarfodydd arbennig o'r Senedd. Gellir cynnull cyfarfod arbennig o'r Senedd hefyd os anfonir cais ysgrifenedig at yr ysgrifennydd. Rhaid i gais am gyfarfod arbennig egluro diben y cyfarfod a rhaid iddo gael ei lofnodi gan o leiaf ddeg aelod o'r Senedd.

20. Rhaid i geisiadau i gynnwys eitemau ar agenda'r Senedd gael eu hanfon at yr ysgrifennydd o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Mae gan yr ysgrifennydd awdurdod i gynnwys eitemau ar yr agenda ond gall ofyn hefyd am gymeradwyaeth y cadeirydd.

21. Rhaid i'r agenda a phapurau ar gyfer cyfarfodydd y Senedd gael eu hanfon at aelodau o leiaf bedwar diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.

22. Nid yw camgymeriadau damweiniol wrth anfon a danfon yr agenda a phapurau yn rheswm digonol dros ganslo cyfarfod, oni bai bod y cadeirydd yn penderfynu fel arall.

23. Y cworwm i gyfarfod o'r Senedd yw deg aelod (rhaid i'r cadeirydd a'r ysgrifennydd fod yn bresennol hefyd).

24. Rhaid i agenda cyfarfod arferol o'r Senedd gynnwys (oni bai bod y cadeirydd yn penderfynu fel arall) gofnodion y cyfarfod blaenorol, materion y cadeirydd ac adroddiadau gan grwpiau tasg ac is-bwyllgorau.
25. Mewn cyfarfod arferol ac arbennig cyfyngir yr hyn a drafodir i'r eitemau hynny sydd ar yr agenda. Gellir ystyried eitemau ychwanegol:
- Yn ôl doethineb y cadeirydd.
 - Os yw mater yn un brys a bod o leiaf ddwy ran o dair o'r aelodau'n bresennol o blaid ei drafod.
26. Gall y cadeirydd benderfynu p'un a oes angen pleidlais ar fater. Mae angen mwyafrif syml i dderbyn cynnig neu ei wrthod. Os oes nifer cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig, mae gan y cadeirydd bleidlais i droi'r fantol.

Atodiad 1: Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grwpiau Tasg sy'n adrodd i'r Senedd

Grŵp Tasg Technoleg Gwybodaeth

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)
Cyfarwyddwr Cyllid
Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol
Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi ac Effaith
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws
Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG
Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau TG
Pennaeth Ceisiadau, Gwasanaethau TG
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Cynrychiolydd o bob coleg
Cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr
Cynrychiolydd y Llyfrgell ac Archifau
Cynrychiolydd y Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT)

Cylch Gorchwyl:

- Sicrhau bod cynlluniau a strategaeth gwasanaeth yn cyd-fynd â strategaeth sefydliadol.
- Gwerthuso, blaenoriaethu, mesur a monitro ceisiadau am gyfrifiaduro TG a gweinyddol.
- Rheoli risgiau o bwys, bygythiadau, newid a chynlluniau wrth gefn mewn ffordd flaengar.
- Sicrhau bod adnoddau ac asedau yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyfrifol.
- Monitro perfformiad yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt a ffynonellau gwybodaeth eraill.
- Adrodd i'r Pwyllgor Gweithredu ac i'r Senedd.

Grŵp Tasg y Llyfrgell ac Archifau

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg a Chysylltiadau â'r Gymuned)
Rheolwr y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid
Rheolwr Casgliadau a Datblygiad Digidol
Rheolwr Cefnogaeth Academaidd
Rheolwr Archifau a Chasgliadau Arbennig
Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr (Addysg)
Rheolwr Llais Myfyrwyr
Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu yn y colegau
Cynrychiolwyr Llyfrgell o'r colegau
Cynrychiolydd o'r Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith, Cynrychiolydd E-ddysgu, Gwasanaethau TG
Cynrychiolydd Gwasanaethau Myfyrwyr

Cylch Gorchwyl:

- Rhoi arweiniad o safbwynt cwsmeriaid ar strategaeth, polisiau, casgliadau, cyllidebu a gwasanaethau.
- Sicrhau bod Strategaeth y Llyfrgell ac Archifau'n cyd-fynd â strategaethau sefydliadol.
- Cadw trosolwg ar ddatblygiadau yn y brifysgol, newidiadau mewn addysgu a dysgu, ymchwil a meysydd eraill sy'n effeithio ar ddarpariaeth y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau.
- Derbynn adroddiadau ac argymhellion gan dîm rheoli'r Llyfrgell ac Archifau ynglŷn â newidiadau, gwelliannau a datblygiadau i wasanaethau allweddol.
- Ymgynghori'n eang â'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Rhoi sylwadau'n ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth.

Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)
 Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
 Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu
 Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)
 Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd
 Aelodau eraill a gymeradwywyd gan y cadeirydd

Cylch Gorchwyl:

Bydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn gweithredu ar ran y Senedd i oruchwylio ansawdd a safonau holl gymwysterau'r brifysgol, yn cynnwys y rhai a ddarperir, yn llwyr neu'n rhannol, mewn cydweithrediad â sefydliadau allanol yn y Deyrnas Unedig a thramor. Dyma ei gyfrifoldebau:

- Sicrhau bod gweithdrefnau'r brifysgol ar sicrhau ansawdd, ynghyd â gweithdrefnau ei phartneriaid a ddilyswyd sy'n berthnasol i unrhyw rai o gymwysterau'r brifysgol, yn cyflawni gofynion a disgwyliadau Cod Ansawdd y Deyrnas Unedig i Addysg Uwch.
- Sicrhau bod holl gymwysterau'r brifysgol, yn cynnwys y rhai a ddarperir, yn llwyr neu'n rhannol, mewn cydweithrediad â sefydliad arall, yn cyflawni gofynion a disgwyliadau Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru, y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch, a Chod Ansawdd y Deyrnas Unedig i Addysg Uwch.
- Monitro'r holl bolisiau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd a'u diweddarau yn ôl yr angen.
- Goruchwylio'r broses o gymeradwyo rhaglenni a modiwlau newydd ac o ail-ddilysu rhai presennol.
- Archwilio gweithdrefnau sicrhau ansawdd academiaidd a monitro safonau ac ansawdd academiaidd.
- Goruchwylio'r broses o benodi'r holl arholwyr allanol.
- Adolygu holl adroddiadau'r arholwyr allanol a holl adroddiadau'r safonwyr.
- Adolygu adroddiad blynyddol ar faterion a godir gan arholwyr allanol a safonwyr, a gofyn am ymateb gan ysgolion a phartneriaid academiaidd ynglŷn â'r materion a godir ganddynt.
- Adolygu adroddiad blynyddol ar faterion a godir mewn digwyddiadau cysylltiedig â dilysu ac ail-ddilysu.
- Goruchwylio trefn arolwg blynyddol modiwlau, rhaglenni diploma/gradd a rhaglenni ôl-radd hyfforddedig.
- Adolygu'n flynyddol ddadansoddiadau ystadegol o ganlyniadau modiwlau a rhaglenni fesul ysgol, gan ddefnyddio canlyniadau ARQUE.
- Derbyn ac ystyried adroddiadau archwiliadau ansawdd mewnol ar ysgolion academiaidd, ac ymatebion yr ysgolion iddynt.
- Ystyried adroddiadau ar unrhyw gwrs neu ysgol a lunnir gan gorff allanol, sefydliad proffesiynol neu awdurdod priodol arall.

- Parhau i oruchwylio partneriaid a rhaglenni cydweithredol y brifysgol, yn cynnwys sicrhau y cânt eu cymeradwyo a'u bod yn parhau i weithredu o fewn rheoliadau a chytundebau'r brifysgol sy'n berthnasol iddynt.
- Derbyn ac ystyried adroddiadau'r Grŵp Archwilio Partneriaethau Allanol, y Grŵp Archwilio Cyrsiau Newydd a'r Panel Cymeradwyo Modiwlau Newydd.
- Adrodd i Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol.
- Cynghori'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu, ar yr holl faterion sy'n ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd, yn cynnwys ymateb i unrhyw gynlluniau o'r fath gan asiantaethau allanol (e.e. ASA, HEFCW).

Grŵp Adolygu Gwella Ansawdd

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)

Deon Ymchwil Ôl-radd

Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr

Pennaeth Rheoli Partneriaeth a Phortffolio

Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu

Pennaeth Cyfranogiad Myfyrwyr

Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr)

Cynrychiolwyr CELT x2

Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd

Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Rheolwr Llais Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr

Ysgrifennydd y Brifysgol

Uwch Swyddog Cynllunio (Ysgrifennydd)

Cylch Gorchwyl:

- Nodi a goruchwyllo adolygiadau ar draws y brifysgol sy'n cynnwys maes addysgu a dysgu, fel y rhai a gynhelir gan yr ASA a'r TEF, a monitro paratodau'n brydlon cyn adolygiadau treigl.
- Goruchwyllo'r gwaith o gynhyrchu a chyflwyno unrhyw ddogfennau adolygu cysylltiedig ar draws y brifysgol.
- Goruchwyllo'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig sy'n deillio o adolygiadau ledled y brifysgol, a, lle bo angen, gofyn am adroddiadau monitro o feysydd perthnasol yn y brifysgol.
- Derbyn ac adfyfyrio'n feirniadol ar adroddiad ansawdd blynyddol gan yr Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu.
- Derbyn ac adfyfyrio'n feirniadol ar adroddiad gwella blynyddol gan y Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT).
- Derbyn ac ystyried yr Adroddiad Profiad Myfyrwyr blynyddol gan Undeb y Myfyrwyr, yng nghyd-destun ansawdd a gwella addysgu a dysgu.
- Adrodd i'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu a'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu.

Grŵp Tasg Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Effaith)
Rheolwr Gwybodaeth Ymchwil a REF (Ysgrifennydd)
Rheolwr UKRI ac Effaith (Cofnodion)
Cyfarwyddwyr Ymchwil Colegau
Cyfarwyddwyr Effaith Colegau

Cylch Gorchwyl:

- Grŵp Tasg Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol.
- Penderfynu ar bolisiau, prosesau a strategaethau i wneud y mwyaf o berfformiad y brifysgol yn y REF nesaf.
- Gwneud penderfyniadau ac argymhellion i'r Pwyllgor Gweithredu i wneud y mwyaf o berfformiad y brifysgol yn REF2021.
- Cymeradwyo a gwerthuso data o'r ymarferion REF treigl blynyddol.
- Adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn flynyddol.

Bydd y grŵp tasg hwn yn cyfarfod yn fisol ac yn ychwanegu cyfarfodydd yn ôl yr angen i gyd-fynd â dyddiadau cau penodol REF2021.

Grŵp Strategaeth Ymchwil, Arloesi ac Effaith

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Effaith)

Cyfarwyddwr Ymchwil pob coleg

Cyfarwyddwr Effaith pob coleg

Deon Ymchwil Ôl-radd

Cyfarwyddwr y Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith

Pennaeth y Gwasanaeth Cyfnewid Gwybodaeth, Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith

Pennaeth y Tîm Cyn Ennill Grantiau, Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith

Rheolwr Gwybodaeth Ymchwil a REF, Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith

Cylch Gorchwyl:

Mae'r grŵp tasg hwn yn darparu cyfeiriad strategol, arweinyddiaeth a goruchwyliaeth yng nghyswllt gweithgareddau a pherfformiad ymchwil, arloesi ac effaith Prifysgol Bangor. Mae'r aelodaeth yn caniatáu cynrychiolaeth o rannau perthnasol o'r brifysgol, gan gynnwys colegau, yr Ysgol Ddoethurol a'r Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith.

- Grŵp Tasg Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol.
- Datblygu strategaeth ymchwil, arloesi ac effaith integredig i'r brifysgol.
- Datblygu, adolygu a goruchwyllo'r gwaith o weithredu strategaeth ymchwil y brifysgol.
- Adolygu a goruchwyllo strategaeth a pherfformiad yr Ysgol Ddoethurol.
- Sicrhau bod cysylltiad rhwng strategaeth sefydliadol a strategaeth ymchwil, arloesi ac effaith y brifysgol, a chysylltu'n briodol â strategaethau'r coleg, strategaeth yr Ysgol Ddoethurol, a pholisiau Llywodraeth Cymru a HEFCW.
- Cyfathrebu strategaeth ymchwil, arloesi ac effaith y brifysgol a gwybodaeth strategol bwysig i'r colegau.
- Derbyn ac ymateb i wybodaeth strategol bwysig gan golegau, yr Ysgol Doethurol a phartion perthnasol eraill.
- Gweithredu'r strategaeth er mwyn gwella amgylchedd ymchwil, arloesi ac effaith y brifysgol.
- Datblygu, gweithredu ac adolygu polisiau a phrosesau rheoli a llywodraethu'r brifysgol sy'n berthnasol i gyflwyno strategaeth ymchwil, arloesi ac effaith y brifysgol.
- Hyrwyddo, hwyluso, cefnogi ac ymgorffori gweithgareddau ymchwil, arloesi ac effaith a chodi ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau hyn ar draws y brifysgol a'u cefnogi.
- Llywio dyraniad strategol adnoddau ymchwil, arloesi ac effaith ym Mhrifysgol Bangor.
- Rheoli risgiau, bygythiadau a newidiadau yn rhagweithiol mewn meysydd sy'n berthnasol i ymchwil, arloesi ac effaith.
- Derbyn adroddiadau ar berfformiad ymchwil, effaith a menter y brifysgol gan golegau, y Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith, y Swyddfa Gyllid, y Swyddfa Gynllunio, Gwasanaethau Llyfrgell ac Archifau ac Adnoddau Dynol.

- Adolygu a gweithredu ar adroddiadau a dderbynnir er mwyn gwella perfformiad ymchwil, arloesi ac effaith ar draws y brifysgol.
- Goruchwyllo'r dull gweithredu sefydliadol a'r ymateb i elfennau allanol sy'n arwain ymchwil, arloesi ac effaith, megis yr Arolwg Rhyngweithio Busnesau Addysg Uwch a Chymunedol (HEBCIS), Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) ac Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI).
- Sefydlu is-grwpiau, byrddau neu bwyllgorau o'r fath fel y mae'r grŵp tasg yn tybio sy'n briodol.
- Adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn flynyddol.

Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr
Cynghorwr Lles Myfyrwyr Rhyngwladol
Cynrychiolydd o'r Grŵp Uwch Diwtoriaid
Cynrychiolydd Neuaddau
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol
Cynrychiolydd o'r Ysgol Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg
Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr
Cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr
Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr
Pennaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd
Pennaeth y Gwasanaeth Cwnsela
Pennaeth y Gwasanaethau Anabledd
Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr
Pennaeth Cyfranogiad Myfyrwyr
Tri chynrychiolydd staff academaidd

Cylch Gorchwyl:

- Hyrwyddo gwasanaethau o ansawdd uchel i fyfyrwyr.
- Cynghori ar weithredu trefn strategol i ddatblygu gwasanaethau i fyfyrwyr a goruchwylio'r gwaith o'i gweithredu.
- Penderfynu ar bolisiau a gweithdrefnau i wella gwasanaethau myfyrwyr a chefnogaeth i fyfyrwyr, a derbyn adroddiadau ac argymhellion oddi wrth wahanol grwpiau ymgynghorol a gweithgorau (e.e. Caledi, Anabledd, Lles, Uwch Diwtoriaid).
- Gweithredu, lle bo'n briodol, neu gynghori ar weithredu mewn unrhyw amgylchiadau sy'n effeithio ar les myfyrwyr.

Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu
Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)
Aelodau eraill a gymeradwywyd gan y cadeirydd

Cylch Gorchwyl:

- Sicrhau bod y strategaeth a'r cynlluniau addysgu a dysgu yn cyd-fynd â'r strategaeth a'r genhadaeth sefydliadol.
- Datblygu a gweithredu strategaethau i sicrhau bod addysgu a dysgu'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn effeithlon, a'u bod yn seiliedig ar yr arferion gorau o fewn y sector ac adborth gan fyfyrwyr.
- Cynghori a goruchwylio gweithredu strategaeth y brifysgol ar addysgu a dysgu.
- Hyrwyddo a chydlynu gweithgareddau a gynlluniwyd i wella addysgu a dysgu.
- Hyrwyddo defnydd cyfrifol o adnoddau addysgu canolog.
- Monitro adborth ansoddol a meintiol gan fyfyrwyr, yn cynnwys canlyniadau arolygon cenedlaethol ac ymatebion yr ysgolion iddynt.
- Rheoli mewn modd rhagweithiol unrhyw risgiau, bygythiadau a newidiadau a allai ddigwydd.

Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg**Aelodau:**

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg a Chysylltiadau â'r Gymuned)
 Cadeirydd Cangen Prifysgol Bangor, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 Cynrychiolydd Prifysgol Bangor ar Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 Dirprwy Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu (Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg) o'r 3 choleg
 Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr
 Cyfarwyddwr Polisi a Datblygu (Canolfan Bedwyr)
 Cyfarwyddwr Marchnata a Recriwtio
 Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr
 Llywydd UMCB
 Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu
 Swyddog Gwasanaethau TG
 Swyddog Llyfrgell ac Archifau
 Swyddog Cynllunio a Gwybodaeth
 Swyddog Cangen (ysgrifennydd) Coleg Cymraeg Cenedlaethol Prifysgol Bangor
 Cynrychiolydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (arsyllwr)

Cylch Gorchwyl:

- (Cadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg ac Ymwneud â'r Gymuned), sy'n un o gyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i ddatblygu, adolygu, monitro a gweithredu strategaeth cyfrwng Cymraeg y brifysgol, gan sicrhau ffocws canolog i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o fewn y strategaeth honno.
- Hyrwyddo ac ymestyn datblygiadau cyfrwng Cymraeg.
- Penderfynu ar flaenoriaethau strategol yn ymwneud â derbyn cyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Mae'n derbyn adroddiadau gan y canlynol:
 - Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 - Colegau ym Mhrifysgol Bangor
 - Swyddog y Gangen
- Adrodd i Bwyllgor Gweithredu Prifysgol Bangor ac i'r Senedd.

Atodiad 2: Aelodaeth a chylch gorchwyl yr is-bwyllgorau

Panel Apêl y Senedd

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) (neu ei enwebai)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr (neu ei enwebai)
Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)
Pedwar aelod a benodir gan y Senedd
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Ysgrifennydd)

Cylch Gorchwyl:

- Bydd y pwyllgor yn ystyried apeliadau fel y nodir yn y Drefn Apeliadau Academaidd.

Byrddau Arholi'r Senedd**Aelodau:**

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu ei enwebai.

Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu ei enwebai)

Cynrychiolwyr ysgolion academiaidd

- Cynrychiolir ysgolion ar fyrddau arholi'r Senedd ble caiff eu cyrsiau eu hystyried
- Gellir gofyn i ysgolion ddod i fyrddau arholi'r Senedd pan gyflwynir eu modiwlau fel rhan o gyrsiau gradd mewn ysgolion eraill
- Bydd pob ysgol yn anfon o leiaf un aelod staff academiaidd
- Gall cynrychiolwyr eraill o ysgolion fod yn bresennol (er enghraifft, swyddogion arholiadau ysgol)

Cylch Gorchwyl:

- Cadarnhau'r marciau a adroddir i bob modiwl a chymeradwyo unrhyw newidiadau i farciau cyffredinol y modiwl a adroddir wrth y bwrdd neu y mae'r bwrdd yn barnu eu bod yn angenrheidiol.
- Cadarnhau'r penderfyniad a gyflwynir i'r bwrdd ynglŷn â hawl y myfyriwr i symud ymlaen ac a yw'r myfyriwr yn gymwys i gael asesiad ychwanegol ac/neu ddewisiadau eraill a ddiffinnir yn y Rheoliadau i Raglenni Hyfforddedig.
- Cadarnhau'r marciau a adroddir yn achos pob modiwl ar ôl asesu ychwanegol a chymeradwyo unrhyw newidiadau i farciau a adroddir wrth y bwrdd neu y mae'r bwrdd yn barnu eu bod yn angenrheidiol.
- Cadarnhau'r penderfyniad a gyflwynir i'r bwrdd ynglŷn â hawl y myfyriwr i symud ymlaen ar ôl asesiad ychwanegol, ac a yw'r myfyriwr yn gymwys i gael asesiad ychwanegol ac/neu ddewisiadau eraill a ddiffinnir yn y Rheoliadau i Raglenni Hyfforddedig.
- Ystyried amgylchiadau arbennig sy'n effeithio ar ganlyniadau modiwlau unigol a gyflwynir i'r bwrdd ac nas ystyriwyd o'r blaen gan fyrddau arholi ysgolion.
- Ystyried amgylchiadau arbennig sy'n effeithio ar benderfyniad y bwrdd ynglŷn â chaniatáu i fyfyrwr symud ymlaen a'r dewisiadau sydd ar gael i'r myfyriwr o ran symud ymlaen.
- Rhoi sylwadau ar faterion a drosglwyddir iddo gan Weinyddu Myfyrwyr, y Senedd, Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu neu'r Is-grŵp Sicrhau Ansawdd.

Gwybodaeth ychwanegol:

- Rhoddir awdurdod i aelodau byrddau arholi'r Senedd gan eu hysgolion i wneud argymhellion ynglŷn â dewisiadau myfyrwyr o ran symud ymlaen ac i gael gwybodaeth am amgylchiadau arbennig.
- Sefydlir byrddau arholi'r Senedd ar sail cynullïadau o feysydd pwnc academiaidd. Cymeradwyir y cynullïadau gan y Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu.

- Fel rheol bydd byrddau arholi'r Senedd yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i ystyried canlyniadau arholiadau Semester 1 a Semester 2. Bydd rhai byrddau'n cyfarfod ar adegau eraill, ac yn amlach, yn dibynnu ar fframwaith a dyddiadau derbyn myfyrwyr i'r cyrsiau dan ystyriaeth.
- Bydd canlyniadau'r arholiadau ychwanegol yn cael eu hystyried fel rheol gan un o fyrddau arholi'r Senedd ym mis Awst a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl ysgolion. Trefnir agenda'r cyfarfod hwn fel y gall cynrychiolwyr ysgolion penodol fod yn bresennol yn rhan o'r cyfarfod. Dylai ysgolion sicrhau bod cynrychiolwyr ar gael i'r cyfarfod hwn.
- Adolygir cofnodion byrddau arholi'r Senedd gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr). Bydd y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) yn adrodd i'r Senedd gan roi pwyslais arbennig ar faterion trefniadol o bwys sydd angen sylw'r Senedd.

- Byddmyfyrwyr yn gallu gweld canlyniadau pob modiwl trwy ddefnyddio FyMangor. Bydd myfyrwyr sydd wedi llwyddo, ac felly'n cael symud ymlaen, yn gallu cadarnhau'r penderfyniad hwn gan ddefnyddio FyMangor. Bydd myfyrwyr nad ydynt yn symud ymlaen yn awtomatig yn cael gwybod am y penderfyniad hwn trwy FyMangor.
- Aelodau Bwrdd Arholiadau'r Senedd fydd yn gyfrifol am hysbysu penderfyniadau'r bwrdd i aelodau priodol o'r staff yn eu gwahanol ysgolion. Yr ysgolion fydd yn gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyngor ysgrifenedig ar yr asesiadau/arholiadau ychwanegol sy'n rhaid eu gwneud.
- Byrddau arholi'r Senedd fydd yn cadarnhau canlyniadau modiwlau myfyrwyr cyfnewid. Bydd cofrestriadau modiwl y myfyrwyr hynny'n cael eu cadarnhau'n derfynol gan y Swyddfa Ryngwladol fel bod y proffil a gyflwynir i'r bwrdd (byrddau) yn fanwl gywir ac y gellir cymeradwyo rhestr gywir o farciau.
- Os oes angen, cynullir Bwrdd Arholiadau'r Senedd ar ôl arholiadau Semester 1 i gadarnhau canlyniadau myfyrwyr cyfnewid sydd wedi astudio modiwlau Semester 1 yn unig cyn dychwelyd i'w sefydliad cartref. Bydd hyn yn caniatáu llunio trawsgrifiad wedi ei gadarnhau ar ôl diwedd Semester 1.

Grŵp Archwilio Partneriaethau Allanol**Aelodau:**

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)

Uwch aelodau staff academaidd y brifysgol, a ddewiswyd gan gadeirydd y grŵp (rhaid i aelodau dynnu'n ôl o drafodaethau os yw cynnig yn ymwneud â'u hysgol/coleg, ond gallant ddarparu tystiolaeth i'r grŵp os yw'n briodol)
Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd (Ysgrifennydd)

Aelodau ymgynghorol:

Cyfarwyddwr Datblygu Rhyngwladol
Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu
Pennaeth y Swyddfa Partneriaethau Addysgu
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio

Cylch Gorchwyl:

- Sicrhau bod cynlluniau a chynigion ar gyfer darpariaeth gydweithredol sydd wedi derbyn cymeradwyaeth strategol gan y Bwrdd Rheoli Partneriaethau yn cael eu hystyried yn unol â rheolau a rheoliadau'r brifysgol.
- Gwerthuso teilyngdod academaidd a goblygiadau sicrhau ansawdd cynigion ar gyfer partneriaid newydd a threfniadau partneriaeth newydd sydd wedi derbyn cymeradwyaeth strategol gan y Bwrdd Rheoli Partneriaethau a, lle bo'n ofynnol, pennu p'un ai y gellir symud ymlaen i'w dilysu.
- Gwerthuso teilyngdod academaidd a goblygiadau sicrhau ansawdd cynigion ar gyfer rhaglenni ar y cyd, rhaglenni deuol, rhaglenni breiniol a rhaglenni newydd eraill a ddilyswyd (yn cynnwys rhaglenni ymchwil a rhaglenni hyfforddedig) sydd wedi cael cymeradwyaeth strategol gan y Bwrdd Rheoli Partneriaethau a, lle bo'n ofynnol, pennu p'un ai y gellir symud ymlaen i'w dilysu.
- Gwerthuso teilyngdod academaidd a goblygiadau sicrhau ansawdd cynigion ar gyfer trefniadau cydweithio newydd, a phennu p'un ai y dylid eu cymeradwyo.
- Ystyried adroddiadau paneli cymeradwyo sefydliadol a dogfennau perthnasol eraill a phennu p'un ai y dylid cymeradwyo partner posib newydd.
- Ystyried cynigion ar gyfer adnewyddu trefniadau partneriaeth presennol.
- Cynghori ar a chymeradwyo methodoleg ar gyfer ymgymryd â dilysu ac ail-ddilysu darpariaeth gydweithredol.
- Nodi a rheoli risgiau a bygythiadau i ansawdd a safonau fel ag y maent yn ymwneud â rheoli addysg uwch yn rhagweithiol gydag eraill.
- Monitro a gwerthuso gweithgareddau partneriaeth.
- Pan fo hynny'n ofynnol, codi materion a gwneud argymhellion i Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol a Senedd y brifysgol.

Bydd y Grŵp Archwilio Partneriaethau Allanol hefyd yn adrodd i Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol.

Pwyllgor Enwebiadau'r Senedd

Aelodau:

Cadeirydd: Is-ganghellor (ex officio)
Ysgrifennydd y Brifysgol (ex officio)
Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (ex officio)
Deon y Coleg
Pennaeth Ysgol
Cynrychiolydd Ysgol yn y Senedd
Aelod annibynnol y Senedd
Swyddog Sabothol Undeb y Myfyrwyr
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Ysgrifennydd)

Cylch Gorchwyl:

- Bydd y pwyllgor yn argymhell aelodau o'r Senedd i fod yn gynrychiolwyr ar grwpiau a phwyllgorau'r brifysgol, a lle bo'n briodol, ar grwpiau a phwyllgorau allanol.

Pwyllgor Gwobrau a Dyfarniadau'r Senedd

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)
Pedwar aelod a benodir gan y Senedd
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Ysgrifennydd)

Cylch Gorchwyl:

- Adolygu'r canllawiau a'r meini prawf ar gyfer y gwobrau a'r dyfarniadau hynny a ddyfernir gan y Senedd, neu drefnu adolygiad ohonynt.
- Diweddarau'r canllawiau a'r meini prawf ar gyfer grantiau a gwobrau fel bo'r angen neu gyfeirio newidiadau o bwys at y Senedd.
- Sicrhau bod manylion grantiau a gwobrau'n cael eu cylchredeg mewn modd amserol a phriodol.
- Goruchwyllo'r prosesau gweinyddol a ddefnyddir gan y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio i reoli grantiau a gwobrau.
- Awdurdodi'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (neu ei enwebai) i drefnu i grantiau a gwobrau penodol gael eu hystyried a'u dyfarnu.
- Ystyried ceisiadau/enwebiadau ar gyfer grantiau a gwobrau penodol ac argymhell pa ymgeiswyr ddylai dderbyn gwobr/grant.

Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd

Aelodau:

Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Ysgrifennydd)
Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu
Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)
Pump aelod a benodir gan y Senedd
Aelodau eraill a gymeradwywyd gan y cadeirydd

Cylch Gorchwyl:

- Datblygu, cynnal ac adolygu rheoliadau academiaidd presennol, codau ymarfer, trefniadau, canllawiau ac unrhyw ddogfennau eraill cysylltiedig.
- Cymeradwyo'r holl reoliadau, codau ymarfer, trefniadau neu ganllawiau a lunnir gan y Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu neu unrhyw grŵp tasg neu bwyllgor arall.
- Sicrhau y cydymffurfir â chod ansawdd y QAA.
- Ystyried a datrys unrhyw achosion arbennig nad ydynt yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau academiaidd.
- Ystyried a datrys pob achos arbennig sy'n codi o gyfnod arholiadau'r haf.
- Datrys pob cwestiwn dehongli rheoliadau/gorchmynion sefydlog sy'n gofyn am ddyfarniad ynglŷn â mater academiaidd.
- Datrys pob mater arall a gyfeirir ato gan y Senedd neu un o is-bwyllgorau'r Senedd.

Pwyllgor Graddau Ymchwil

Aelodau:

Cadeirydd: Deon Ymchwil Ôl-radd
 Cyfarwyddwyr Astudiaethau Ôl-radd y colegau (3)
 Cynrychiolwyr academiaidd y colegau (3)
 Arweinwyr DTP
 Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu
 Rheolwr yr Ysgol Ddoethurol
 Llywydd UM a chynrychiolwyr myfyrwyr (2)
 Cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cefnogi
 Cynrychiolwyr rhai mewn swyddi gweinyddol ym maes ôl-raddedigion ymchwil
 Ysgrifennydd

Gall y Pwyllgor Graddau Ymchwil gyfethol aelodau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei gyloch gorchwyl mewn perthynas â phob maes a math o weithgaredd ymchwil doethurol a bydd o bryd i'w gilydd yn gwahodd staff perthnasol i ddod i gyfarfodydd i drafod materion penodol.

Cylch Gorchwyl:

Diben y Pwyllgor Graddau Ymchwil yw:

- Datblygu ac adolygu strategaethau, polisiau a threfnau'r brifysgol yn ymwneud â myfyrwyr ôl-radd ymchwil, yn cynnwys rhai'n ymwneud â derbyn a chofrestru, goruchwyllo a monitro, hyfforddi a datblygu myfyrwyr a goruchwylwyr a chynrychiolaeth myfyrwyr.
- Monitro dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â myfyrwyr ôl-radd ymchwil.
- Adolygu cynigion am gymwysterau ôl-radd ymchwil newydd, yn cynnwys cymwysterau ar y cyd a chymwysterau deuol.
- Goruchwyllo pob agwedd ar y profiad ôl-radd ymchwil.
- Monitro cynnydd myfyrwyr ôl-radd ymchwil.
- Derbyn adroddiad blynyddol gan bob coleg ar weithgareddau ôl-radd ymchwil.
- Derbyn adroddiad blynyddol gan yr Ysgol Ddoethurol ar ei gweithgareddau.
- Derbyn adroddiad blynyddol gan Undeb y Myfyrwyr ar weithgareddau ôl-radd ymchwil.
- Derbyn adroddiad blynyddol gan yr Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu ar ganlyniadau arholiadau graddau ymchwil.
- Derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion ac apeliadau gan ôl-raddedigion ymchwil.
- Adolygu rheoliadau a chodau ymarfer yn ymwneud â graddau ymchwil.
- Adolygu ceisiadau i sefydlu DTPs/DTCs a chanolfannau eraill cyffelyb.
- Derbyn adroddiadau 6 mis mewn perthynas â phroject KESS 2 Cymru gyfan (dan arweiniad Bangor ar ran y sector AU yng Nghymru).
- Gwneud argymhellion ac adrodd i'r Grŵp Tasg Strategaeth Ymchwil trwy'r Grŵp Tasg Strategaeth Ymchwil.
- Darparu adnoddau.

Atodiad 3: Rheolau a gweithdrefnau ar gyfer penodiadau er anrhydedd

Rheolau

- Ni roddir unrhyw dâl am gyfraniad yr unigolyn.
- Ni fydd yr unigolyn fel rheol yn cael defnyddio cyfleusterau llyfrgell neu gyfrifiaduro'r brifysgol, ond gellir gwneud cais am hynny a'i drefnu gan Ddeon y Coleg/Pennaeth yr Ysgol.
- Nid oes gan yr unigolyn hawl i le mewn swyddfa, ond gellir rhannu cyfleusterau o'r fath yn ôl yr hyn y gall y coleg neu'r ysgol berthnasol ei ddarparu.
- Disgwylir y byddant yn gwneud cyfraniad rheolaidd a fydd yn cael ei ystyried fel un **sylweddol** gan y coleg/ysgol.
- Trwy dderbyn teitl er anrhydedd, mae'r unigolyn dan sylw'n cytuno i dderbyn rheolau, rheoliadau a gweithdrefnau'r brifysgol.
- Fel rheol disgwylir bod unrhyw un sy'n cael ei enwebu mewn swydd - neu sydd â statws yn y maes - y tu allan i'r brifysgol, neu wedi ymddeol o swydd o'r fath.

Teitlau

Darlithydd/Uwch Ddarlithydd er Anrhydedd - am gyfraniad at addysgu a dysgu

Cymrawd Ymchwil/Uwch Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd - am gyfraniad o bwys at ymchwil

Cysylltai Ymchwil/Uwch Gysylltai Ymchwil er Anrhydedd - am gyfraniad llai at ymchwil

Cymrawd Diwydiannol/Uwch Gymrawd Diwydiannol er Anrhydedd - am gyfraniad at weithgareddau cyswllt diwydiannol

Cymrawd Entrepreneuraidd/Uwch Gymrawd Entrepreneuraidd er Anrhydedd - am gyfraniad at weithgareddau masnachol neu'n ymwneud â busnes

Cysylltai/Uwch Gysylltai er Anrhydedd - am gyfraniadau nad ydynt yn rhai academaidd.

Sylwer: mae'r drefn ar gyfer penodi Athrawon er Anrhydedd yn cael sylw mewn gweithdrefn wahanol.

Gellir defnyddio'r term 'Ymweld...' hefyd ar gyfer unrhyw un o'r teitlau uchod pan fo unigolyn yn ymweld â'r sefydliad am gyfnod o fis o leiaf.

Y Drefn

1. Rhaid i gynnig gael ei gyflwyno gan ddeon coleg/pennaeth ysgol ar ffurflen sydd ar gael gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio. Yn ogystal â'r ffurflen enwebu, dylid cyflwyno CV y sawl a enwebir.
2. Y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio sy'n gyfrifol am gynghori'r Senedd ar benodiadau er anrhydedd a bydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i wirio bod safonau'n cael eu cynnal a bod yr enwebiad yn gysylltiedig â chyfraniad allanol dilys a di-dâl at weithgareddau'r coleg/ysgol.
3. Ystyrir y cynnig gan y Senedd a fydd yn penderfynu arno yn ei gyfarfod nesaf.
4. 1. Os caiff ei gymeradwyo gan y Senedd, caiff 'llythyr penodi' ei anfon at yr unigolyn gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio. Bydd hwn yn ymdrin â materion yn ymwneud ag atebolrwydd a chydymffurfio â pholisïau a rheoliadau'r brifysgol. A chymryd y cedwir at y drefn hon, byddai'r rhai a 'benodir' i swyddi er anrhydedd yn dod dan yswiriant "atebolrwydd cyflogwr" y brifysgol.
5. Rhoddir teitlau am gyfnod cytunedig, a bydd Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn cadw cronfa ddata o unigolion a benodir (gyda dyddiadau).
6. Bydd gan y Senedd hawl i dynnu teitl er anrhydedd yn ôl cyn diwedd y cyfnod y cytunir arno os yw'n ystyried bod tystiolaeth o beidio â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu o beidio â chyflawni'r chyfraniadau y cytunwyd arnynt.

Adnewyddu

Yn dilyn diwedd y cyfnod penodi y cytunwyd arno, mae gan y coleg/ysgol y dewis i ofyn am gael adnewyddu'r penodiad am gyfnod pellach.

1. Dylai deon coleg/pennaeth ysgol gyflwyno cynnig i adnewyddu ar ffurflen sydd ar gael gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, gan nodi'n glir pam mae'r coleg/ysgol yn credu y dylid adnewyddu'r penodiad, fel arfer byddai hyn yn cynnwys tystiolaeth o gyfraniad yr unigolyn at y coleg/ysgol yn ystod y cyfnod dan sylw.
2. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i wirio bod safonau'n cael eu cynnal a bod yr enwebiad yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyfraniad allanol dilys a di-dâl at weithgareddau'r coleg/ysgol.
3. Ystyrir y cynnig gan y Senedd a fydd yn penderfynu arno yn ei gyfarfod nesaf.
4. Os caiff ei gymeradwyo gan y Senedd, bydd Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, ar ran Ysgrifennydd y Brifysgol, yn anfon 'llythyr adnewyddu penodiad' at yr unigolyn. Bydd hyn yn ymdrin â materion atebolrwydd a chydymffurfio â pholisïau a rheoliadau'r brifysgol. Ar yr amod bod y weithdrefn hon yn cael ei dilyn, mae yswiriant "atebolrwydd cyflogwr" y brifysgol yn berthnasol i rai a benodir er anrhydedd.

Caiff y teitl ei adnewyddu am gyfnod cytunedig pellach, a bydd Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn cadw cronfa ddata o unigolion a ail-benodir (gyda dyddiadau).